| CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU | | NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES |
|---|---|---|
| **OFFERYNNAU STATUDOL** | | **S T A T U T O R Y**<br><br>**I N S T R U M E N T S** |
| **2000 Rhif (Cy. )** | | **2000 No. (W. )** |
| **Y DRETH GYNGOR, CYMRU** | | **COUNCIL TAX, WALES** |
| **Rheoliadau Treth Gyngor (Atebolrwydd Perchnogion i Dalu) (Diwygio) (Cymru) 2000** | | **The Council Tax (Liability for Owners) (Amendment) (Wales) Regulations 2000** |
| **NODYN ESBONIADOL**<br><br>*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)* | | **EXPLANATORY NOTE**<br><br>*(This note does not form part of the Regulations.)* |
| Mae Rheoliadau Treth Gyngor (Atebolrwydd Perchnogion I Dalu) 1992 yn rhagnodi dosbarthiadau o anheddau y mae'r perchennog, yn hytrach na'r preswylydd, yn atebol I dalu treth gyngor ar eu cyfer. | | The Council Tax (Liability for Owners) Regulations 1992 prescribe classes of dwellings for which the owner, rather than the resident, is liable to pay council tax. |
| O 3 Ebrill 2000 ymlaen bydd ceiswyr lloches yng Nghymru, sy'n ddiymgeledd i bob golwg, yn cael llety ac anghenion byw hanfodal eraill o dan adran 95 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999, ac ni fyddant yn gymwys i gael budd-daliadau gan gynnwys budd-dâl treth gyngor.<br><br>Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu mai perchennog y llety, yn hytrach na'r ceisydd lloches sy'n preswylio yno, fydd yn atebol I dalu treth gyngor ar gyfer unrhyw lety sy'n | | From 3rd April 2000 asylum seekers, in Wales, who appear to be destitute will receive accommodation and other essential living needs under section 95 of the Immigration and Asylum Act 1999, and will not be eligible for benefits including council tax benefit.<br><br>These Regulations provide that the council tax liability for any accommodation provided |

| | | |
|---|---|---|
| cael ei ddarparu o dan adran 95 gan ychwanegu dosbarth newydd o anheddau at y dosbarthiadau sydd wei'u rhagnodi gan Reoliadau 1992. | | under section 95 will fall on the owner of the accommodation rather than the resident asylum seeker by adding a new class of dwellings to the classes prescribed by the 1992 regulations. |
| | | |
| **OFFERYNNAU STATUDOL** | | **S T A T U T O R Y**<br><br>**I N S T R U M E N T S** |
| **2000 Rhif (Cy. )** | | **2000 No. (W. )** |
| **Y DRETH GYNGOR, CYMRU** | | **COUNCIL TAX, WALES** |
| **Rheoliadau Treth Gyngor (Atebolrwydd Perchnogion i Dalu) (Diwygio) (Cymru) 2000** | | **The Council Tax (Liability for Owners) (Amendment) (Wales) Regulations 2000** |
| *Wedi'u gwneud 2000*<br><br>*Yn dod i rym 3 Ebrill 2000* | | *Made 2000*<br><br>*Coming into force 3rd April 2000* |
| Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 8(1) ac 113(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992**(a)** a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru I'r graddau eu bod yn arferadwy yng Nghymru.**(b)**. | | The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by sections 8(1) and 113(1) of the Local Government Finance Act 1992**(a),** which now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in Wales.**(b)** |
| **Enwi, cychwyn a chymhwyso** | | **Citation, commencement and application** |

| | | |
|---|---|---|
| **1.**-(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Treth Gyngor (Atebolrwydd Perchnogion i Dalu) (Diwygio) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 3 Ebrill 2000. | | **1.**-(1) These Regulations may be cited as the Council Tax (Liability for Owners) (Amendment) (Wales) Regulations 2000 and shall come into force on 3rd April 2000. |
| (2) Mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru’n unig. | | (2) These Regulations apply to Wales only. |
| **Atebolrwydd Perchnogion i Dalu – ceiswyr lloches** | | **Liability for owners – asylum seekers** |
| **2.** Ar ôl y disgrifiad o Ddosbarth E yn rheoliad 2 o Reoliadau Treth Gyngor (Atebolrwydd Perchnogion i Dalu) 1992**(c)** mewnosodwch y canlynol - | | **2.** After the description of Class E in regulation 2 of the Council Tax (Liability for Owners) Regulations 1992**(c)** insert the following - |
| "*Asylum Seekers*<br><br>**Class F** a dwelling provided to an asylum seeker under, or under arrangements made under, section 95 of the Immigration and Asylum Act 1999 **(ch)**." | | "*Asylum Seekers*<br><br>Class F a dwelling provided to an asylum seeker under, or under arrangements made under, section 95 of the Immigration and Asylum Act 1999 **(d)**." |
| | | |
| | | |
| | | |
| Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(d).** | | Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998**(e)**. |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| [ ] 2000 | | [ ] 2000 |
| Llywydd<br><br>y Cynulliad Cenedlaethol | | The Presiding Officer<br><br>of the National Assembly |
| | | |
| | | |

**(a)** 1992 p.14.

**(b)** Gweler erthygl 2 o, ac Atodlen 1 i, Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

**(c)** O.S. 1992/551.

**(ch)** 1999 p.33.

**(d)** 1998 p.38.

(a) 1992 c.14

(b) See article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1992/551.

(d) 1999 c.33.

(e) 1998 c.38.